# CYNGOR GWYNEDD

# GWASANAETH RHEOLI LLYGREDD A THRWYDDEDU

**DEDDF SEFYDLIADAU LLETY ANIFEILIAID 1963**

# AMODAU A CHANLLAWIAU TRWYDDEDU
# AR GYFER LLETY I GŴN

# Cynnwys

**1. AMODAU CYFFREDINOL**
1.1 Arddangos Trwydded
1.2 Cymeradwyaeth gan yr Awdurdod

**2. LLETY AC AMGYLCHEDD**
2.1 Adeiladwaith
2.2 Maint y Gofodau
2.3 Gwelyau
2.4 Tymheredd a Gwresogi
2.5 Goleuo
2.6 Awyru
2.7 Glanweithdra
2.8 Cŵn Crwydr
2.9 Rheoli Pla
2.10 Draenio a Chael Gwared â Gwastraff

**3. DIET A MAETH**
3.1 Bwyd a Diod
3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

**4. YMDDYGIAD ARFEROL**
4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff
4.2 Goruchwylio
4.3 Y Nifer Uchaf o Gŵn a gaiff eu Lletya a Gofynion Staff

**5. IECHYD A LLES**
5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
5.2 Rheoli Afiechydon a Brechu
5.3 Cyfleusterau Ynysu
5.4 Gofynion Amrywiol
5.5 Cludo Cŵn
5.6 Diogelu rhag Tân
5.7 Diogelwch Offer Trydanol

**6. CADW COFNODION**
6.1 Cofrestr
6.2 Adnabod y Llety i Gŵn

**7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006**
7.1 Meddyginiaeth Arferol
7.2 Cymdeithasu
7.3 Ysgogiad Gweledol
7.4 Adnabod Cŵn

**ARGYMHELLION**
Polisi Yswiriant

**MATERION ERAILL SY’N YMWNEUD Â RHEDEG SEFYDLIAD TRWYDDEDIG**
A - Trefn Apelio
C - Canllaw Rhagofalon Tân
C - Iechyd a Diogelwch

## 1. Amodau Cyffredinol

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **1.1 Arddangos Trwydded**<br><br>**a.** Rhaid i gopi o'r drwydded a'i hamodau gael ei harddangos yn briodol i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn y llety. | |
| **1.2 Cymeradwyaeth gan yr Awdurdod**<br><br>a. Ni cheir rhoi llety i unrhyw anifeiliaid ar wahân i gŵn yn y cyfleusterau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol.<br>b. Ni cheir rhoi llety i gŵn crwydr heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol. | Cynghorir deiliaid trwydded i hysbysu cleientiaid posib fod cyfleuster i gŵn crwydr yn gweithredu yn y sefydliad. |

## 2. Llety ac Amgylchedd

*Rhaid cadw cŵn mewn llety sy'n briodol o ran adeiladwaith, maint y gofodau, gwelyau, cyfleusterau ymarfer corff, tymheredd a gwresogi, goleuo, awyru, glanweithdra, a chael gwared â gwastraff.*

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **2.1 Adeiladwaith**<br><br>**a.** Ni ddylid defnyddio unrhyw adeiladau na llety ar wahân i'r rhai sy'n cael eu crybwyll yn y cynllun a gymeradwywyd ac a atodir at eich trwydded.<br>**b.** Rhaid gosod allan a gweithredu'r sefydliad yn unol â chynllun cymeradwy bob amser.<br>**c.** Cyn gwneud unrhyw addasiadau, rhaid cyflwyno cynlluniau i'r awdurdod lleol a rhaid i'r awdurdod eu cymeradwyo.<br>**d.** Ni ddylid defnyddio unrhyw lety nes bydd yr awdurdod trwyddedu wedi'i gymeradwyo.<br>**e.** Rhaid i'r holl arwynebau mewnol a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drysau fod yn wydn, yn llyfn, yn anhydraidd, ac yn hawdd eu glanhau.<br>**f.** Ni cheir defnyddio pren yn adeiladwaith moel waliau, lloriau, parwydydd, yn ardal cytiau'r cŵn.<br>**g.** Lle defnyddiwyd pren mewn adeilad presennol, rhaid ei orchuddio gyda deunydd gwydn, llyfn ac anhydraidd, ond nid paent. Ni ddylai unrhyw beth ymestyn allan fel y gallai achosi anaf.<br>**h.** Rhaid i barwydydd rhwng cytiau'r cŵn fod o wneuthuriad cadarn ac o leiaf 1.1m o uchder.<br>**i.** Rhaid i loriau'r holl adeiladau, y mannau ymarfer corff a chytiau'r cŵn fod o ddeunydd llyfn, anhydraidd a dylent | Y cynllun cymeradwy yw'r diagram o'r "gosodiad" sydd wedi'i gynnwys gyda'ch trwydded flynyddol. Cynghorir deiliaid trwydded yn gryf i geisio arweiniad am unrhyw ganiatâd cynllunio posib fydd ei angen parthed 'newid defnydd' adeiladau presennol neu godi unrhyw adeiladau newydd. Nid yw rhoi trwydded yn gyfystyr a rhoi caniatâd cynllunio o unrhyw fath.<br><br>Dylid dylunio cytiau cŵn ac adeiladau mewn ffordd sy'n lleihau sŵn. Dylid rhoi ystyriaeth ddigonol i sensitifrwydd uchel cŵn i sŵn amledd uchel yn y dyluniad ble bo'n briodol. Dylai dyluniad yr unedau sicrhau fod gan bob ci fynediad parhaus i le cysurus, sych, heb ddrafft, sy'n lân a thawel er mwyn gorffwyso.<br><br>Dylai dyluniad ystyried safle daearyddol, e.e. gall fod yn anoddach gwresogi cytiau cŵn sy'n wynebu'r gogledd. Bydd gogwydd cywir cytiau'r cŵn yn rhoi'r defnydd mwyaf o oleuni naturiol.<br><br>Mae parwydydd cadarn sydd o leiaf 4' mewn uchder yn angenrheidiol fel rhwystrau rhag tisian/cyswllt rhwng cŵn sy'n ymweld, a gall hyn fod o gymorth wrth leihau lledaeniad unrhyw afiechyd heintus. |

| | |
|---|---|
| fod yn hawdd eu glanhau. Dylent hefyd gynnwys pilen sy'n atal lleithder.<br><br>**j.** Dylai fod gan loriau lethr digonol i alluogi draeniad effeithiol sy'n arwain at sianel ddraenio, a dylai fod gan y lloriau ddigon o afael arnynt i alluogi i'r ci gerdded neu redeg heb lithro.<br>**k.** Dylai'r drysau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll ergydion a chrafu. Rhaid iddynt gau yn dynn, a dylid bod modd eu cloi'n effeithiol.<br>**l.** Lle defnyddir bariau a fframiau metel, dylent fod o faint addas i atal cŵn rhag dianc neu gael eu dal.<br>**m.** Pan ddefnyddir ymyl metel, ni ddylai hwn beri anaf posib i'r ci.<br>**n.** Lle defnyddir drysau gydag wyneb plastig ac ymylon metel, rhaid rhoi gogwydd digonol i ymylon y metel stribed er mwyn rhwystro'r cŵn rhag cael anaf.<br>**o.** Rhaid sicrhau diogelwch y cŵn drwy'r gwaith adeiladu.<br>**p.** Rhaid i gytiau'r cŵn a'r mannau ymarfer corff agor i goridorau diogel neu fannau diogel eraill fel na all cŵn ddianc o'r eiddo.<br>**q.** Rhaid i bob ffenestr sy'n arwain at berygl i ddiogelwch fod yn amhosib dianc drwyddi bob amser. | Dylai adeiladau, llwybrau, gerddi a mannau ymarfer corff gael eu cynnal yn dda a dylent fod mewn cyflwr da, glân a diogel.<br><br>Er mwyn sicrhau na ellir dianc drwy'r ffenestri, dylid eu hamddiffyn gyda rhwyll weld, neu dylid eu gwneud o wydr wedi'i atgyfnerthu, poligarbonad neu unrhyw ddeunydd arall sy'n gwrthsefyll trawiad. |
| **2.2 Maint y Gofodau**<br><br>**a.** Rhaid i bob cwt ci fod â man cysgu sy'n rhoi cyfforddusrwydd addas i'r ci sy'n aros yno, gan roi ystyriaeth i'w faint a'i frîd.<br>**b.** Rhaid i bob cwt ci gael man ymarfer corff sydd ar wahân i'r man cysgu ac sy'n unswydd ar gyfer y cwt hwnnw. Mae hon yn ardal i'r ci ei ddefnyddio fel y man ar unrhyw adeg ac eithrio pan fydd wedi mynd i'w wely am y noson. | Disgwylir i'r man cysgu fod yn 1.2 metr sgwâr ar gyfartaledd. Byddai hyn yn rhoi digon o le i wely ar gyfer ci o faint canolig/mawr, a hyd at ddau gi o faint bach/canolig.<br><br>Dylai'r cwt ci fod yn ddigon mawr i alluogi i bob ci gerdded, troi o gwmpas ac ysgwyd ei gynffon heb daro ochrau'r cwt, i chwarae, sefyll ar ei goesau ôl a gorwedd heb gyffwrdd neb arall. |

| | |
|---|---|
| **c.** Rhaid i isafswm maint y mannau ymarfer corff (heb gynnwys y man cysgu) fod fel a ganlyn:<br>• Ci bach - 2.25 metr sgwâr<br>• Ci o faint canolig - 2.8 metr sgwâr<br>• Ci mawr - 4.5 metr sgwâr<br><br>**d.** Rhaid i bob cwt ci fod o leiaf 1.8 metr o uchder er mwyn i staff y llety gael mynediad digonol i lanhau. | Pan fo'r anifail/anifeiliaid yn y cwt ci dylai fod yna ddigon o le i'r drws agor yn llawn.<br><br>Ceir y diffiniadau a ddefnyddir am gŵn bach, canolig a mawr ar wefan y Kennel Club. www.thekennelclub.org.uk<br><br>Rhaid i eiddo trwyddedig nad yw ei ardaloedd ymarfer corff yn ddigon mawr ddarparu cyfleusterau ymarfer corff amgen e.e. amser penodol i fynd am dro a/neu gorlannau y tu allan. |
| **2.3 Gwelyau**<br><br>**a.** Rhaid darparu gwely neu offer addas sy'n galluogi i'r ci fod yn gysurus ac y mae modd ei lanhau'n ddigonol a'i ddiheintio a dylai fod allan o ffordd unrhyw ddrafft.<br>**b.** Rhaid cadw deunydd gwely yn lân, heb barasitiaid, ac yn sych.<br>**c.** Rhaid i wely ci fod wedi'i adeiladu'n gadarn ac yn anhydraidd, ac o faint addas ar gyfer brîd y cŵn a gedwir. | Fe allasai'r perchennog ddarparu'r gwely/deunydd gwely ar gyfer y cŵn.<br><br>Gallai deunydd gwely addas y gallai'r llety ei gynnig olygu 'gwely milfeddyg' neu ddeunydd cyffelyb. Mae'n hawdd golchi a sychu'r math hwn o ddeunydd gwely.<br><br>Diffinnir gwely cŵn fel sylfaen gyda thri neu bedwar wal o'i gwmpas (3D) gyda tho arno neu beidio. |
| **2.4 Tymheredd a Gwresogi**<br><br>**a.** Rhaid insiwleiddio mannau cysgu'r cytiau cŵn rhag i'r tymheredd amrywio'n eithafol.<br>**b.** Rhaid cynnal tymheredd mannau cysgu cytiau'r cŵn rhwng 10 gradd C a 26 gradd C.<br>**c.** Mewn cytiau cŵn wedi'u hynysu, rhaid sicrhau bod modd o gynnal y tymheredd ar lefel sy'n addas i gyflwr y ci ac yn ddibynnol ar gyngor gan filfeddyg. | Ni ellir rheoli'r tymheredd yn llym yn yr ardaloedd tu allan lle gall anifeiliaid wneud ymarfer corff a rhyngweithio. Ni ddylid cyfyngu cŵn i lefydd gydag amodau hinsawdd a all beri gofid iddynt.<br><br>Dylai'r deunyddiau a ddefnyddir ar du allan cytiau'r cŵn amddiffyn y cŵn yn ddigonol rhag amrywiaeth yn y tymheredd drwy gydol y flwyddyn. |

| | |
|---|---|
| Fodd bynnag, ni ddylid gadael i'r tymheredd yn y cytiau ynysu godi uwchlaw 26°C na syrthio o dan 13°C.<br>**d.** Rhaid darparu thermomedr 'uchafswm - isafswm' ym mhob bloc o gytiau cŵn ac yn yr uned ynysu.<br>**e.** Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sicrhau bod unrhyw offer gwresogi yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheolaethol ar gyfer yr anifeiliaid, a'r bobl sy'n gweithio yno.<br>**f.** Ni ddylid gosod offer gwresogi mewn lleoliad neu fodd ble gallant beri risg tân neu fod yn beryglus i gŵn. | Er mwyn cynnal tymheredd yn unol â'r gofynion, fe all defnyddio ffynonellau gwresogi unigol fod yn fwy addas i'r cŵn. Mewn rhai amgylchiadau fe all fod angen gwres cefndirol ychwanegol.<br><br>Rhaid i'r dyfeisiadau a ddefnyddir i wresogi ac oeri fod yn ddiogel a ddim yn debygol o achosi perygl drwy losgi neu drydanu. Ni ddylid defnyddio offer gyda fflam agored a dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. |
| **2.5 Goleuo**<br><br>**a.** Yn ystod golau dydd, dylid darparu golau (naturiol sydd orau) yn y mannau ymarfer corff a chysgu fel bod bob man i'w weld yn glir.<br>**b.** Rhaid darparu goleuadau artiffisial mewn mannau sy'n cael eu defnyddio ar ôl golau dydd.<br>**c.** Rhaid rhoi gorchudd plastig ar bob golau artiffisial er mwyn atal anafiadau posib i'r cŵn sy'n deillio o wydr wedi torri. | Mae angen i'r cŵn fod mewn amgylchedd sy'n rhoi digonedd o olau yn ystod y dydd; dylid diffodd unrhyw olau artiffisial yn ystod y nos i hwyluso'r patrymau cysgu naturiol.<br><br>Rhaid bod golau artiffisial ar gael er mwyn gallu cadw golwg ar y cŵn yn iawn y tu hwnt i olau dydd.<br><br>Mae lampau gwresogi hefyd yn creu golau. Mae lampau gwresogi'n naturiol gael eu gosod ar lefel isel ac ni ellir rhoi gorchudd plastig arnynt, ond dylai rhwyll fetel amddiffynnol fod arnynt i atal cŵn rhag cyffwrdd y bylbiau poeth yn uniongyrchol. |
| **2.6 Awyru**<br><br>**a.** Rhaid darparu system awyru yn y mannau cysgu ac ymarfer corff heb greu drafftiau gormodol yn y llefydd penodol lle mae'r gwely. | Dylai'r system awyru yn y llety dan do i'r holl gŵn roi digonedd o awyr iach o safon addas a chadw lefelau arogleuon, nwyon niweidiol, llwch a ffynnonellau heintus o unrhyw fath i lawr, a heb wasgaru, a sicrhau fod gwres a lleithder gormodol yn cael eu gwaredu.<br><br>Dylid dylunio'r system awyru fel ei fod yn osgoi drafftiau a sŵn niweidiol. |

| | |
|---|---|
| **2.7 Glanweithdra**<br><br>**a.** Dylid cadw pob uned, coridor, mannau cyffredin, ceginau ac ati, yn lân, heb faw a llwch cronnus, a dylid eu cadw yn y fath fodd fel ei fod yn hwyluso'r gallu i gynnal a chadw, a rheoli afiechydon, a chyfforddusrwydd y cŵn.<br>**b.** Rhaid glanhau pob cwt ci yn ddyddiol.<br>**c.** Rhaid cael gwared â'r holl garthion a'r deunyddiau wedi'u baeddu o'r ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y diwrnod, ac yn amlach os oes angen.<br>**d.** Rhaid glanhau a diheintio pob uned yn drwyadl pan ddaw'n wag, neu bob saith diwrnod - pa un bynnag yw'r byrraf.<br>**e.** Rhaid glanhau a diheintio pob offer a gwely yn drwyadl cyn eu hail-ddefnyddio. | Ceir rhestr o ddiheintyddion yn:<br><br>**http://disinfectants.defra.gov.uk/** |
| **2.8 Cŵn Crwydr**<br><br>**a.** Os bydd cytiau cŵn yn gweithredu fel lloc i gŵn hefyd, yna rhaid i gyfleuster y lloc weithredu fel menter gwbl ar wahân.<br>**b.** Lle bydd cytiau cŵn yn derbyn cŵn crwydr, rhaid iddynt gael eu cadw mewn bloc o gytiau cŵn ar wahân ac oddi wrth gŵn sy'n lletya, o leiaf 5m oddi wrth unrhyw gytiau cŵn eraill.<br>**c.** Rhaid i'r bloc o gytiau cŵn crwydr hefyd gydymffurfio'n llwyr ag amodau 2.1 - 2.7 | Y rheswm dros gadw'r cyfleusterau lletya oddi wrth y lloc i gŵn yw statws iechyd a brechiad anhysbys y cŵn crwydr.<br><br>Dylai staff sicrhau eu bod yn glanhau a diheintio eu dwylo, eu dillad a'u hesgidiau yn llwyr wrth fynd i mewn i gytiau'r cŵn crwydr ac wrth eu gadael.<br><br>Yn ddelfrydol, dylai'r llwybr dynesu a'r fynedfa i'r cytiau cŵn crwydr fod yn llwyr ar wahân i rai y cytiau lletya. Os nad ydynt, dylid cadw at fesurau bioddiogelwch llym i ddiogelu iechyd a lles y cŵn preswyl. |

| | |
|---|---|
| **2.9 Rheoli Pla**<br><br>**a.** Rhaid cymryd camau i gadw cnofilod, pryfed, a phla arall o'r sefydliad, a chadw parasitiaid allanol oddi ar y cŵn. | Dylech bob amser ddilyn canllawiau'r gwneuthurwyr wrth ddefnyddio cynnyrch rheoli er mwyn lleihau'r perygl i'r cŵn. |
| **2.10 Draenio a Chael Gwared â Gwastraff**<br><br>**a.** Dylai'r sefydliad fod wedi'i gysylltu â phrif system garthffosiaeth neu system leol gymeradwy i gael gwared â gwastraff.<br>**b.** Dylai llawr mewnol pob cwt ci newydd gael ei adeiladu fel bod llethr addas yn mynd at sianel ddraenio wedi'i gorchuddio fydd yn derbyn yr hylif golchi llawr o bob uned, a'i arllwys i gyli gyda thrap arno sy'n cysylltu â'r system ddraenio aflan.<br>**c.** Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwared â phob gwastraff.<br>**d.** Rhaid cymryd gofal arbennig i ddidoli gwastraff a gesglir o ganlyniad i driniaeth ac ymdrin â chŵn gydag afiechydon heintus. | Rhaid i ddeiliad y drwydded holi Asiantaeth yr Amgylchedd am ganllawiau cyfredol ar ffyrdd addas o gael gwared â'r gwastraff hwn. |

## 3. Diet a Maeth

*Rhaid i'r holl gŵn sy'n lletya gael cyflenwad addas a digonol o fwyd. Rhaid bod dŵr glân ar gael bob amser a dylid ei newid yn ddyddiol. Rhaid cael cyfleusterau paratoi bwyd.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllaw** |
|---|---|
| **3.1 Bwyd a Diod** | |
| **a.** Rhaid rhoi diet i'r holl gŵn sy'n addas i'w math, eu hoed a'u brîd.<br>**b.** Rhaid darparu'r bwyd hwn ar yr adegau a fanylir gan berchennog y ci.<br>**c.** Rhaid i'r cŵn allu cyrchu dŵr ffres, glân bob amser.<br>**d.** Rhaid i'r llestri bwyta ac yfed fod o ddyluniad sy'n atal y bwyd a'r diod rhag mynd i bob man, cyhyd â bod hyn yn ymarferol.<br>**e.** Rhaid i'r llestri fod yn hawdd i'w glanhau, eu diheintio, a rhaid eu cadw'n lân. | Gall perchennog y ci ddarparu hwn er mwyn osgoi unrhyw newid yn niet y ci ar fyrder, a all beri problemau treulio. |

| | |
|---|---|
| **3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio**<br><br>**a.** Rhaid darparu cyfleusterau addas, sydd wedi'u hadeiladu a'u cynnal mewn ffordd hylan, ar gyfer storio a pharatoi bwyd i'r cŵn.<br>**b.** Pan fo cigoedd ffres a rhai wedi'u coginio'n cael eu storio, dylid defnyddio oergelloedd. Rhaid osgoi halogi'r bwyd.<br>**c.** Rhaid i sinc gyda thap dŵr poeth ac oer fod ar gael ar gyfer golchi celfi cegin a dysglau bwyta ac yfed.<br>**d.** Rhaid darparu cynwysyddion i storio bwyd a rhaid iddynt fod o wneuthuriad da a'u cadw mewn cyflwr da fel nad yw pryfed a phla yn gallu mynd iddynt. | Gall hyn fod yn ystafell ar wahân neu yn ardal ddynodedig, ar gyfer y lletywyr yn unig.<br><br>Rhaid gallu glanhau a diheintio'r wynebau yn hawdd yn ôl y galw a rhaid iddynt sychu'n gyflym. Rhaid i'r holl fwydydd gael ei storio'n briodol i sicrhau ei fod yn ffres, yn sych ac nad oes perygl o halogiad gan bryfetach. |

## 4. Ymddygiad Arferol

*Rhaid i'r cŵn fod yn gallu arddangos patrymau ymddygiad normal bob amser. Rhaid iddynt gael y cyfle i fwynhau ymarfer corff a chael goruchwyliaeth ddigonol.*

| Amod y Drwydded | Canllaw |
|---|---|
| **4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff**<br><br>**a.** Yn ogystal â chorlan y cytiau cŵn, rhaid bod llefydd ymarfer corff/chwarae ar gael yn y cytiau cŵn.<br>**b.** Rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i alluogi i'r cŵn redeg yn rhydd.<br>**c.** Rhaid i'r cyfleusterau fod yn ddiogel a chadarn gyda draenio digonol i atal dŵr rhag cronni.<br>**d.** Dylid sefydlu gweithdrefn glanweithdra a glanhau effeithiol i leihau'r perygl o heintiadau. | Pan fo'n amhriodol i rai cŵn gael eu rhyddhau i fannau cymunedol, dylid cynnal gweithgaredd amgen megis mynd am dro ar dennyn. Mae'n well cael caniatâd ysgrifenedig y perchenogion os yw hyn yn digwydd y tu allan i'r eiddo.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth i ofynion uchder a deunyddiau'r ffens a ddefnyddir ar gyfer yr ardal(oedd) ymarfer corff/chwarae yn ddibynnol ar fath a maint y cŵn sy'n defnyddio'r cyfleuster. |

| | |
|---|---|
| **e.** Rhaid i'r cytiau cŵn sydd heb gyfleusterau ymarfer corff ychwanegol, neu gyfleusterau sydd ddim yn cael eu defnyddio, gynnig ymarfer corff ar dennyn gyda chaniatâd perchennog y ci. | Mae mannau glaswelltog yn anoddach i'w glanhau ac mae'n anoddach atal cronni o'i gymharu â iard goncrit neu gyffelyb. Dylid glanhau baw ci o leiaf bob dydd ac fe all fod gofyn cyflwyno gweithgaredd amgen pe bai tywydd gwlyb yn peri i'r gwair fynd yn rhy fwdlyd/gwlyb. |
| **4.2 Goruchwylio**<br><br>**a.** Os yw deiliad y drwydded yn absennol am beth amser yna rhaid i berson addas a chymwys sy'n 16 oed o leiaf oruchwylio'r eiddo.<br>**b.** Pan fydd cytiau cŵn heb oruchwyliaeth am gyfnodau byrion, dylid arddangos enw a rhif ffôn cyswllt mewn lle amlwg a dylid diogelu'r cytiau.<br>**c.** Rhaid i'r rhai sy'n goruchwylio fod â gwybodaeth drylwyr a manwl o'r amodau trwyddedu gan gydymffurfio gyda phob un bob amser.<br>**d.** Rhaid ymweld â'r cŵn yn rheolaidd, fel bo'r angen er mwyn eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles. | Mae angen i unrhyw un sy'n goruchwylio'r cŵn fod â gwybodaeth ddigonol a phrofiad i allu trin y cŵn yn gywir ac yn ddiogel. Rhaid iddynt hefyd allu adnabod pan yw ymddygiad ci yn awgrymu fod problem, gan weithredu yn unol â hynny.<br><br>Dylai fod gan yr holl staff fynediad i'r Cod Ymarfer er Lles Cŵn a phob deddfwriaeth berthnasol arall, a dylent fod yn gyfarwydd â'r rhain.<br><br>Gallai diffyg cydymffurfio o unrhyw fath gydag amodau trwyddedu gael effaith andwyol ar lefel galluedd staff goruchwylio.<br><br>Mae darparwyr hyfforddiant achrededig ar gael sy'n cynnig cyrsiau perthnasol y gallai deiliaid trwydded eu hystyried yn ddefnyddiol i'w staff eu mynychu.<br><br>Mae o dro i dro yn gyson yn golygu tair gwaith y dydd o leiaf. |
| **4.3 Y Nifer Uchaf o Gŵn a gaiff eu Lletya a Staff**<br><br>**a.** Nodir nifer uchaf y cŵn a gaiff eu lletya ar unrhyw adeg ar y drwydded ac ni ddylid lletya mwy na hynny. | Rhaid i nifer y staff fod yn ddigonol i sicrhau fod pob ci sy'n lletya yn cael sylw unigol digonol i ddiwallu ei anghenion |

| | |
|---|---|
| **b.** Nid ar unrhyw gyfrif fydd cyfanswm y cŵn ar y drwydded yn fwy na 40 ar gyfer pob gweithiwr amser LLAWN a 20 ar gyfer pob gweithiwr RHAN amser sy'n gweithio yn y sefydliad.<br><br>**c.** Bydd nifer y cŵn a ganiateir eu lletya yn cael ei leihau os na fydd modd cydymffurfio gyda gofynion eraill y drwydded.<br>**d.** Rhaid i bob ci gael cwt ar wahân ac eithrio cŵn o'r un aelwyd sy'n cael rhannu cwt os rhy'r perchennog ganiatâd ar lafar, cyhyd â'i fod o faint sy'n addas i gadw'r cŵn yn gysurus. | iechyd a lles.<br><br>Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y sefydliad yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y llety a'r cyfleusterau ymarfer corff sydd ar gael, bod gofynion iechyd a lles yn cael eu diwallu, a bod lefel o gydymffurfiaeth barhaus â'r drwydded.<br><br>Lle nad yw'r awdurdodau trwyddedu'n fodlon gyda gallu deiliad arfaethedig y drwydded neu ddeiliad cyfredol y drwydded, dylent leihau nifer y cŵn y caiff gweinydd ofalu amdanynt. Gallai tystiolaeth o hyn fod ar ffurf methiant â chwrdd ag amodau'r drwydded e.e. cŵn ddim yn cael ymarfer corff a glanweithdra gwael.<br><br>Gweithiwr amser llawn yw rhywun sy'n gweithio 30 awr yr wythnos o leiaf ac mae gweithiwr rhan amser yn gweithio 15 awr o leiaf. |

## 5. Iechyd a Lles

*Rhaid cymryd rhagofalon rhesymol er mwyn atal a rheoli afiechydon heintus ac ymledol rhag lledaenu ymysg anifeiliaid. Rhaid i unrhyw anifail sâl neu wedi'i anafu gael gofal a thriniaeth briodol yn ddiymdroi. Mae cyfleusterau ynysu, offer cymorth cyntaf ac amddiffyn rhag tân yn angenrheidiol.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllaw** |
|---|---|
| **5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg**<br><br>**a.** Rhaid i bob llety gofrestru gyda milfeddygfa a sicrhau bod manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.<br>**b.** Rhaid galw milfeddyg y sefydliad pan fydd arwydd o | <br><br><br>Gellir cael cyfeiriad milfeddygfeydd o wefan Coleg Brenhinol y Milfeddygon: **http://www.rcvs.org.uk/FindAVet** |

| | |
|---|---|
| afiechyd, anaf neu salwch.<br>**c.** Os bydd unrhyw gi yn sâl neu wedi'i anafu, rhaid dilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan filfeddyg er mwyn ei drin, yn llym. | |
| **5.2 Rheoli Afiechydon a Brechiadau**<br><br>**a.** Rhaid cymryd rhagofalon digonol er mwyn atal a rheoli afiechydon heintus a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith cŵn, staff ac ymwelwyr.<br>**b.** Rhaid i gŵn sy'n cael eu lletya neu sy'n byw yn yr eiddo fod â chofnod cyfredol o'r brechiadau a gymeradwywyd gan filfeddygon a gawsant yn erbyn clefyd y cŵn, *kennel cough*, hepatitis, *parvovirus*, *leptosbirosis* ac afiechydon perthnasol eraill.<br>**c.** Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o farwolaeth unrhyw anifail ar yr eiddo. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded wneud trefniadau i'r corff gael ei storio mewn milfeddygfa nes dychwel y perchnogion. | Gall rhagofalon digonol gynnwys brechiadau atgyfnerthol blynyddol ac unrhyw fesurau ataliol eraill fel barno deiliad y drwydded yn ddoeth. Dylai hyn fod mewn ymgynghoriad â milfeddyg. |
| **5.3 Cyfleusterau Ynysu**<br><br>**a.** Rhaid i gyfleusterau ynysu gydymffurfio â'r amodau trwyddedu eraill ond rhaid iddynt hefyd fod ar wahân yn ffisegol.<br>**b.** Rhaid i'r cyfleusterau ynysu hyn fod o leiaf bum metr oddi wrth gytiau cŵn eraill (Gweler hefyd 2.4 Tymheredd a Gwresogi).<br>**c.** Rhaid defnyddio cyfleusterau ynysu pan dybir fod afiechyd heintus yn bresennol.<br>**d.** Rhaid i gyfleusterau digonol fod ar gael i atal afiechydon heintus rhag lledaenu rhwng y cyfleusterau ynysu a chytiau cŵn eraill. Rhaid i'r rhain gynnwys trochfa draed | Yn y lle cyntaf, rhaid defnyddio cyfleusterau ynysu os oes gan staff y cytiau cŵn unrhyw bryderon am iechyd ci cyn trefnu ymweliad milfeddyg.<br><br>Person dynodedig, sy'n gallu sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau eu bod yn lleihau'r perygl fod unrhyw afiechyd yn lledaenu i unrhyw gŵn eraill yn yr eiddo, ddylai drin cŵn sydd wedi'u hynysu.<br><br>Dylai hyn gynnwys mesurau bioddiogelwch sylfaenol, gan gynnwys golchi dwylo, diheintio esgidiau a newid dillad (yn |

| | |
|---|---|
| a darpariaeth o offer amddiffyn personol i'w defnyddio yn y cyfleuster ynysu yn unig.<br>**e.** Rhaid golchi dwylo ar ôl gadael y cyfleusterau ynysu cyn ymweld â'r cytiau cŵn eraill. | enwedig os cadarnheir presenoldeb afiechyd) wrth fynd i mewn i'r cyfleuster ac wrth adael.<br><br>Ceir rhestr o ddiheintyddion cymeradwy yn:<br>**http://disinfectants.defra.gov.uk/** |
| **5.4 Gofynion Amrywiol**<br><br>**a.** Rhaid cael bocs cymorth cyntaf sy'n addas i gŵn, ac wedi'i gyflenwi'n dda, ar y safle a rhaid iddo fod wrth law.<br>**b.** Rhaid cadw safnrwymau (muzzles) o feintiau amrywiol yn ogystal â dyfais dal cŵn ar y safle a rhaid iddynt gael cymeradwyaeth yr awdurdod lleol.<br>**c.** Rhaid i ddeiliad y drwydded gymryd pob cam rhesymol i warchod geist sy'n cwnna a rhwystro cyswllt rhyngddynt a chŵn.<br>**d.** Os fydd ci yn dianc neu'n mynd ar goll o lety cŵn trwyddedig, rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny a heb unrhyw oedi. Rhaid rhoi manylion llawn dyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau'r digwyddiad, disgrifiad o'r ci, manylion llawn y perchennog, ac unrhyw gamau gweithredu adferol a gymerwyd eisoes gan ddeiliad y drwydded i'r awdurdod trwyddedu. | Ar gyfer geist sydd heb eu hysbaddu cynghorir gofyn i'r perchenogion pryd oedd yr ast yn ei thymor diwethaf, fel bod modd hysbysu staff y llety cŵn os yw'r ast yn debygol i ddod i'w thymor pan fydd yn aros yno.<br><br>Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau linell frys "y tu allan i oriau" a gellir adrodd i'r cyfleuster hwn pan fydd unrhyw gi yn dianc yn y lle cyntaf os nad ydych yn gallu cysylltu â'r adran drwyddedu. Dylid hysbysu asiantaethau megis yr Heddlu, Gwasanaeth Warden Cŵn y Cyngor cyn gynted ag y bo modd. |
| **5.5 Cludo Cŵn**<br><br>**a.** Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sy'n cynnig gwasanaeth casglu a danfon sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir yn cydymffurfio â rheoliadau presennol Lles Anifeiliaid wrth gael eu Cludo. | Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r gofyniad i sicrhau 'Lles Anifeiliaid wrth gael eu Cludo'. Gallwch ofyn i'ch archwilydd trwyddedu am fanylion y deddfwriaethau cyfredol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: Cawell/cewyll cŵn sydd wedi'u gosod yn ddiogel ac wedi'u hawyru'n ddigonol. Yn ogystal â'r gofyniad i fod yn ddeiliad awdurdodiad cludo. |
| **5.6 Diogelu rhag Tân** | |

| | |
|---|---|
| **a.** Rhaid cael cynllun gwacáu mewn argyfwng a gweithdrefn rhybudd o dân, a dylid hysbysu staff ohonynt.<br>**b.** Rhaid i'r rhain gael eu rhoi mewn lle y gall staff eu gweld.<br>**c.** Dylai'r weithdrefn hon gynnwys cyfarwyddiadau'n ymdrin â lle dylid mynd â'r cŵn.<br>**d.** Rhaid cael dulliau addas o hysbysu pawb os oes tân neu unrhyw argyfwng arall.<br>**e.** Rhaid cynnal offer ymladd tân a chanfyddwyr yn briodol a rhaid gwasanaethu diffoddwyr tân neu gael rhai newydd yn ôl y galw.<br>**f.** Rhaid cynnal gosodiadau a theclynnau trydanol mewn cyflwr diogel.<br>**g.** Dylid cael system i dorri'r gylched gerrynt gweddilliol ymhob bloc o gytiau cŵn.<br>**h.** Ni ddylid gosod offer gwresogi mewn lleoliad neu fodd lle gallant beri risg tân neu berygl i gŵn.<br>**i.** Dylid cymryd rhagofalon er mwyn atal unrhyw ddeunydd a allai beri risg tân rhag cronni. | Gyda rhagofalon tân, rhaid hefyd ystyried: Hygyrchedd i gyfarpar ymladd tân a chyflenwad dŵr, ffordd o ddianc, arwyddion dim ysmygu, gosodiadau trydanol, offer ymladd tân a rhybuddion. Gweler Atodlen B i weld y manylion llawn. |
| **5.7 Diogelwch Offer Trydanol**<br><br>**a.** Rhaid i chi sicrhau bod yr holl systemau trydanol wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n ddigonol, cyhyd â bod hynny'n rhesymol yn ymarferol, er mwyn atal peryglon, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989. | Gweler yr adran sy'n ymwneud â gosodiadau trydanol i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth â rheoliadau. |

## <u>6. Cadw cofnodion</u>

*Rhaid cadw cofnodion yn unol â gofyniad y ddeddfwriaeth sy'n manylu ar bob gwybodaeth sy'n berthnasol i bob ci sy'n lletya ac sydd wedi'i gyfeirio yn erbyn rhif cwt unigol pob ci, er mwyn sicrhau fod pob aelod staff yn llwyr ymwybodol o ofynion unigol pob ci.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllaw** |
|---|---|
| **6.1 Cofrestru**<br><br>**a.** Rhaid cadw cofrestr o'r holl gŵn a gaiff eu lletya. Rhaid i'r wybodaeth a gedwir gynnwys:<br><br>• dyddiad cyrraedd a rhif y cwt<br>• enw'r ci, yn ogystal ag unrhyw nod adnabod megis rhif microsglodyn neu datŵ<br>• disgrifiad, brîd, oedran a rhyw'r ci<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person cyswllt pan fydd y ci yn lletya<br>• enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci<br>• dyddiad gadael tybiedig a gwirioneddol, gofynion iechyd, lles a maeth<br><br>**b.** Rhaid sicrhau bod y cofnodion ar gael ac yn cael eu cadw am o leiaf 24 mis. Rhaid eu cadw mewn modd sy'n galluogi i swyddog awdurdodedig gael mynediad hawdd at wybodaeth o'r fath.<br>**c.** Os yw cofnodion yn cael eu cadw ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi caled.<br>**d.** Yn ogystal, rhaid i'r gofrestr fod ar gael i aelodau staff y sefydliad bob amser. | Rhaid i'r gofrestr fod ar ffurf sy'n eglur a hawdd ei deall gan unrhyw aelod staff a'r archwilydd trwyddedig. |
| **6.2 Adnabod y Cytiau Cŵn** | |

| | |
|---|---|
| **a.** Rhaid i bob cwt gael ei rifo'n glir.<br>**b.** Dylid arddangos enw a disgrifiad o'r ci sy'n lletya ar y pryd, naill ai ar bob cwt neu, fel arall, ar fwrdd gwyn/du ymhob bloc o gytiau gyda rhif y cwt a manylion y ci wedi'u hysgrifennu arno'n glir. | Gallai hyn, yn syml, fod yn gerdyn maint cerdyn post gydag enw a brîd (o leiaf) y ci, wedi'i atodi ar flaen pob cwt fel y bo'n briodol.<br><br>Gall bwrdd gwyn/du gyda rhif pob uned arno a manylion y preswylydd/wyr presennol h.y. enw, brîd, gofynion dietegol neu arbennig, roi braslun o fanylion yr holl gŵn yn y bloc o gytiau ei hun.<br><br>Efallai na fydd defnyddio bwrdd gwyn/du yn ymarferol y tu allan oherwydd byddant yn agored i'r elfennau. |

## 7. Deddf Lles Anifeiliaid 2006 - Gofynion Dyletswydd Gofal

Mae Adran 9 y Ddeddf uchod yn rhoi'r ddyletswydd gofal ar berson sy'n gyfrifol am anifail.  Datgan y Ddeddf fod person yn troseddu os nad yw'n cymryd camau rhesymol i ddarparu ar gyfer anghenion yr anifail hwnnw.  Er mwyn i chi gydymffurfio gyda'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi manylion rhai gofynion a chanllawiau penodol y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

Pan gyfyd posibilrwydd fod Dyletswydd Gofal o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 wedi'i thorri, gall y Cyngor, yn ôl ei ddoethineb, gyflwyno Rhybudd o Welliant i ddatrys y broblem.

| **Amodau Trwyddedu** | **Canllaw** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **7.1 Meddyginiaeth Arferol**<br><br>**a.** Rhaid i berson cymwys ac addas roi meddyginiaeth i unrhyw gi a gaiff ei letya sydd angen meddyginiaeth neu driniaeth arferol/yn ddyddiol.<br>**b.** Rhaid logio a thrafod yn llawn faint o feddyginiaeth a pha mor aml y dylid ei gweini cyn y daw'r ci i aros. | Mae'n arfer da i ddeiliad y drwydded gael tystiolaeth ysgrifenedig o unrhyw anghenion meddyginiaeth er mwyn diogelu iechyd a lles y ci a'i amddiffyn ei hun pe cyfyd rhywbeth yn y dyfodol. |
| **7.2 Cymdeithasu**<br><br>**a.** Rhaid i bob anifail gael y cyfle i ryngweithio a chael ei ysgogi'n ddyddiol. | Dylid cael ymarfer corff, chwarae, a chyswllt arall â phobl er mwyn sicrhau fod y cŵn yn cael digonedd o gyswllt gyda phobl, cyhyd â bod hynny'n ymarferol, a dylai fod yn ddiogel ac yn gymesur â hyd yr arhosiad yn y llety cŵn.<br><br>Mae nifer o gŵn yn cael cwmnïaeth pobl bron drwy'r amser ond yn cael ychydig neu ddim cyswllt gyda chŵn eraill. Gallai rhoi'r cŵn hyn mewn amgylchedd gyda chŵn eraill beri ofn a straen, felly wrth sefydlu unrhyw gymdeithasu, rhaid ystyried anian ac anghenion cŵn unigol, ynghyd â dymuniadau'r cleient. |
| **7.3 Ysgogiad Gweledol/Clywedol**<br><br>**a.** Ar gyfer adeiladau newydd neu pan ychwanegir at gytiau cŵn presennol neu pan gânt eu hadnewyddu, dylid adeiladu'r adeiladau fel eu bod yn darparu ysgogiad gweledol/clywedol ac yn tynnu meddwl y cŵn sy'n cael eu lletya ble bo hynny'n berthnasol. | Wrth ddylunio adeilad cytiau cŵn newydd, bydd 'golygfa' o bob uned yn ysgogiad gweledol/clywedol o fath; fel arall gallai cynnwys teledu neu ddarparu radio ymhob bloc er mwyn i bob ci allu gwylio/gwrando am gyfnodau trwy gydol y dydd. |

| | |
|---|---|
| **7.4 Adnabod Cŵn**<br><br>**a.** Rhaid gallu adnabod cŵn yn rhwydd drwy ddull priodol. | Dylai pob ci sy'n lletya wisgo tag adnabod e.e. "Rwyf i'n aros yn Llety Cŵn ABC" ynghyd â'r manylion cyswllt.<br><br>Mae hyn yn arfer da ac yn arbennig o bwysig pan fydd y cŵn yn cael ymarfer corff (gyda chaniatâd y perchenogion) y tu allan i'r eiddo trwyddedig. Pe digwydd fod ci yn mynd ar goll, gall hwyluso canfyddiad buan. |

**<u>Argymhelliad</u>**

| **Argymhelliad** | **Canllaw** |
|---|---|
| **Polisi Yswiriant**<br><br>Argymhellir yn gryf bod gan bob sefydliad lletya sicrwydd yswiriant cynhwysfawr ac addas. | Dylai'r yswiriant fod ar gyfer amrywiaeth eang o "anffawd i gŵn", megis gofal milfeddygol brys, colled, atebolrwydd trydydd parti ac atebolrwydd cyflogwr lle bo hynny'n briodol. |

**MATERION ERAILL SY’N YMWNEUD Â RHEDEG SEFYDLIAD TRWYDDEDIG.**

## A. <u>Y DREFN APELIO</u>

**<u>Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)</u>**

Caiff unrhyw berson sy'n anfodlon gyda phenderfyniad awdurdod lleol i wrthod rhoi trwydded o'r fath, neu gydag unrhyw amod y cynigir rhoi trwydded o'r fath yn ddarostyngedig iddo, apelio i Lys Ynadon; ac fe all y llys mewn apêl o'r fath roi'r fath gyfarwyddyd ynghylch cyflwyno trwydded neu, yn ddibynnol ar yr achos, ynghylch yr amodau y rhoddir trwydded yn ddarostyngedig iddynt fel y gwêl yn dda.

## B. <u>CANLLAW RHAGOFALON TÂN</u>

Rhoddir y wybodaeth a ganlyn i ddeiliaid y drwydded, i'w cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion y rhagofalon tân y manylir arnynt yn amodau trwydded y Cyngor, sy'n gofyn bod camau priodol yn cael eu cymryd er gwarchod anifeiliaid pe digwydd tân neu argyfwng arall.

Anelir y canllaw at sicrhau fod y modd o ddianc a'r rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol i ddeiliaid sy'n bobl.
Dylid cofio y gall gofynion diogelwch tân i bobl ddod o dan ddeddfwriaeth wahanol.

Dylid rhoi ystyriaeth i’r hyn a ganlyn:

1. Hygyrchedd i gyfarpar ymladd tân a chyflenwad dŵr - dylid bod mynediad da i offer ymladd tân (lled o 3.7m o leiaf) a phob hydrant a chyflenwadau dŵr gwastraff arall a dylid darparu lleiniau caled.  Dylid arddangos bwrdd enw'r eiddo yn glir ger mynedfa'r ffordd agosaf.

2. Dulliau Dianc - Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid fel eu bod yn rhoi ffordd syth allan o adeiladau, gyda chyn lleied o gymorth pobl ag y bo modd. Dylid trefnu drysau'r corlannau fel bod modd i'r anifeiliaid adael yn gyflym a dylid osgoi troeon llym, rhwystrau a rampiau ar hyd y llwybrau dianc, cyhyd a bo modd.
    a) Dylai'r allanfeydd yn yr holl eiddo fod yn ddigon llydan ac uchel i allu mynd at yr anifeiliaid bob amser.
    b) Dylid gallu agor yr allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.

c) Os yn angenrheidiol, dylid paratoi ar gyfer galw deiliad yr allweddi ar fyrder.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr o hyd, neu lle mae nifer fawr o anifeiliaid yn cael eu cartrefu, dylid darparu dwy allanfa o leiaf a dylent fod mor bell oddi wrth ei gilydd â bo modd. Dylid cyfyngu pellter teithio i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu - Dylid arddangos rhybuddion dim ysmygu yn ardal cadw glaswellt a gwellt a, ble bo'n ymarferol, dylid cymryd gofal rhag i bobl heb awdurdod, yn enwedig plant, fynd i mewn.

4. Gosodiadau Trydanol - dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau yn gyson rhag i lwch gronni. Dylid rhoi offer trydanol, gwresogwyr ac ati, yn eu lle a'u sadio fel eu bod pellter diogel oddi wrth unrhyw ddeunydd gwely a allai fod wedi cronni.

5. Offer Ymladd Tân

a. Diffoddwyr Tân Cludadwy - Argymhellir yr hyn a ganlyn o leiaf:

- Mae adeiladau ag arwynebedd o ddim mwy na 200m2 angen o leiaf 2x9 o ddiffoddwyr tân dŵr, ar gyfer adeiladau ag arwynebedd o dros 200msg, rhaid darparu diffoddwr tân ychwanegol ar gyfer pob 200m2 neu ran o hynny.
- Rhaid i ddiffoddyddion tân gwrdd ag anghenion BS EN 3 a rhaid eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
- Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, fe all fod yn bosib gostwng hyn i un diffoddwr menw eiddo bychan iawn gyda gofod llawr o lai na 90m2.
- Ni ddylid defnyddio diffoddwyr tân sy'n cynhyrchu sŵn mawr wrth iddynt weithio yn ymyl anifeiliaid, e.e. CO2, neu gymylau mawr o bowdwr sych.

b. Pibell rîl - Gellir darparu olwyn pibell yn hytrach na diffoddwyr tân cludadwy. Dylai fod un bibell o leiaf ar gyfer pob arwynebedd o 800m2 neu ran o hynny.
Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Gall pibellau golchi fod yn dderbyniol cyhyd â bod ganddynt lif cyson o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu ffrwd o ddŵr sy'n teithio o leiaf bum medr.
Ni ddylai olwyn pibell fod yn fwy na 45m o hyd a dylent gael eu gosod fel gellir mynd â'r chwistrell o fewn 6m o bob rhan o'r eiddo gwarchodedig.

6. Rhybuddion Tân - Dylai holl staff y sefydliad fod yn gyfarwydd â beth i'w wneud pe digwydd tân. Dylid rhoi rhybudd ysgrifenedig, amlwg yn dynodi'r hyn y dylid ei wneud pe digwydd tân, a lleoliad y ffôn agosaf.

Gall y rhybudd gynnwys:

"Wrth ganfod tân, sicrhewch fod yr adeilad dan sylw yn cael ei wagio.
Galwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn...}.
Ymdriniwch â'r tân trwy ddefnyddio'r offer ymladd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel gwneud hynny
ac ati"

***7.*** *Cyfeirnod Map A/O - Dylai cyfeirnod Arolwg Orndans fod ar gael i'r eiddo a dylid ei arddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarperir.*

Mae'r **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhagofalon tân angenrheidiol yn cael eu gosod er mwyn amddiffyn personau perthnasol os bydd tân yn yr eiddo, ac yng nghyffiniau'r holl eiddo, sy'n destun y ddeddfwriaeth.

'Y person cyfrifol' sy'n gyfrifol am gydymffurfio gyda'r gorchymyn. Mewn gweithle, y cyflogwr ac unrhyw berson arall a allai fod yn rheoli unrhyw ran o'r eiddo yw'r person hwn, e.e. y deiliad neu'r perchennog. Ymhob eiddo arall, y person(au) sy'n rheoli'r eiddo a fydd yn gyfrifol.

Rhaid i berson cyfrifol:

Gynnal Asesiad Risg Tân, a rhaid cofnodi canfyddiadau pwysig os cyflogir mwy na phum person, os yw'r eiddo'n drwyddedig neu os oes rhybudd o welliannau mewn grym.

I'ch cynorthwyo ymhellach, mae canllaw Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael gan y Stationery Office neu trwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

## C. IECHYD A DIOGELWCH

Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn berthnasol i bob busnes, ni waeth pa mor fach. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, chi sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y rhagofalon cywir i leihau'r risgiau o beryglon yn y gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Mae canllaw ar gael o'r enw "*Health and Safety made simple*". Mae'r canllaw hwn yn gwneud pethau'n haws i chi drwy roi'r wybodaeth sylfaenol ar yr hyn yr ydych angen ei wneud mewn un lle. Bydd yn eich cynorthwyo i ddechrau rheoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Gyda rhai gweithgareddau gwaith, fe allwch fod angen gwneud pethau ychwanegol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae canllawiau pellach ar bynciau penodol, megis rheoli asbestos, atal afiechyd o ganlyniad i ddod i gyswllt ag anifeiliaid, ac ati, ac asesiadau modelu risg ar gael ar-lein yn www.hse.gov.uk Gallwch hefyd gysylltu â thîm iechyd a diogelwch Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 a gofyn am y swyddog dyletswyddau neu e-bostiwch ni ar BwydaIechyd&Diogelwch@gwynedd.gov.uk.

Gellir lawrlwytho'r llyfryn "*Health and Safety made simple*" trwy ddilyn y ddolen hon:
http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf